Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Hawl i Brynu Cymunedol

Beth rydych chi'n feddwl



Tachwedd 2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Hawl i Brynu Cymunedol i Gymru.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cyfeiriad: Is-adran Lleoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: CommunityRightToBuy@gov.wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

Cynnwys

Am yr arolwg yma 4

Am y Cynllun Hawl i Brynu Cymunedol 6

Pam mae asedau cymunedol yn bwysig 9

Beth fydd y cynllun yn ei wneud 13

Enghreifftiau o asedau cymunedol 15

Budd cymunedol 17

Pwy sydd yn gallu cofrestru neu brynu asedau 18

Pwy fydd yn rhedeg y cynllun 21

Sut fyddai'r cynllun yn gallu gweithio 29

Am yr arolwg yma



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am **Gynllun Hawl i Brynu Cymunedol Cymru**.

Cynllun

Fe fyddwn n'n galw hyn yn **gynllun** yn fyr.

Fe fyddai'r cynllun yn gallu helpu cymunedau i:



- Gofyn i leoedd cymunedol pwysig ac arbennig gael eu hychwanegu at restr - neu **gofrestru**.



- Cael y cyfle cyntaf i brynu lleoedd pwysig i'r gymuned.



Fe fydd yr arolwg yma yn ein helpu i wneud y cynllun a'r deddfau sydd eu hangen ar ei gyfer.



Darllenwch y ddogfen yma. Yna atebwch y cwestiynau yn y Ffurflen Ymateb.

Am y Cynllun Hawl i Brynu Cymunedol



Mae yna lawer o rannau pwysig i gymuned.



Mae rhai pethau'n helpu i ddod â'r gymuned at ei gilydd. Fel adeiladau, tir, neu leoedd. Rydyn ni'n eu galw nhw yn **asedau**.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod cymunedau yn gallu cadw asedau pwysig.



Er enghraifft, weithiau mae adeiladau mae cymuned yn eu defnyddio llawer yn cael eu gwerthu. Os ydyn nhw'n cael eu gwerthu, efallai na fydd y gymuned yn gallu ei defnyddio wedyn.



Yn y cynllun, fe fyddai grŵp cymunedol yn gallu gofyn i asedau pwysig gael eu hychwanegu at **gofrestr**.



Mae'r **gofrestr** yn rhestr sy'n dangos i ni pa leoedd ac adeiladau sy'n bwysig i'r gymuned.



Os ydy asedau ar y gofrestr yn cael eu rhoi ar werth, fe fyddai grwpiau cymunedol yn cael y cyfle cyntaf i'w brynu.




Os fyddan nhw'n penderfynu peidio â'i brynu, fe fyddai'n cael ei werthu fel arfer.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am hyn, a sut fyddai'n gallu gweithio.



Dydy'r syniad yma ddim yn newydd. Mae gennym ni rai ffyrdd o helpu cymunedau i ddefnyddio asedau pwysig yn barod.



Fe fyddai'r cynllun newydd yma yn rhoi opsiwn ychwanegol i helpu grŵp cymunedol i fod yn berchen ar ased.

Pam mae asedau cymunedol yn bwysig



Mae asedau fel adeiladau a thir yn chwarae rhan bwysig mewn bywyd cymunedol. Maen nhw'n gallu:



- Helpu pobl i gyfarfod a chysylltu.



- Helpu pobl i gyrraedd a defnyddio gwasanaethau.



- Cefnogi gweithgareddau.



- Gwneud cymunedau'n gryfach.



Ar hyn o bryd, mae yna ychydig o ffyrdd mae cymunedau yn gallu defnyddio asedau.



Ond mae yna rai problemau gyda sut mae hyn yn gweithio. Er enghraifft:



- Does gan gymunedau ddim llawer o hawliau am fod yn berchen ar asedau.



- Mae'r ffordd mae hyn yn gweithio yn gallu bod yn wahanol ar draws Cymru.



Mae grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill wedi gofyn am hawliau cryfach a chefnogaeth i gymunedau.



Mae llawer o asedau cymunedol wedi cael eu colli yng Nghymru.




Maen nhw wedi mynd ar werth a dydy'r gymuned ddim wedi cael digon o amser i'w prynu.




Neu roedd problemau sydd wedi gwneud prynu asedau yn anodd.



Fe wnaethon ni ymchwil a gofyn beth roedd llawer o grwpiau o bobl a sefydliadau yn feddwl.



Ac rydyn ni wedi edrych ar beth sy'n digwydd yn Lloegr a'r Alban.



Mae hyn wedi ein helpu i benderfynu ein bod ni angen cynllun Cymreig.

Beth fydd y cynllun yn ei wneud

Rydyn ni'n credu y byddai'r cynllun yn:



- Rhoi mwy o gyfle i gymunedau fod yn berchen ar eu hasedau eu hunain.



- Gwneud pethau'n gliriach.



- Gwneud yn siŵr bod pethau'n gweithio yn yr un ffordd ar draws Cymru.



- Fe fydd yn fwy teg i gymunedau a'u gwneud yn gryfach.



Budd cymunedol

Fe fyddai cymunedau yn gallu cadw asedau sy'n bwysig iddyn nhw.



Cysylltiad lleol

Fe fyddai'r cynllun yn gallu cefnogi grwpiau sy'n defnyddio'r ased, yn ei ardal leol.



Cydbwysedd

Fe ddylai'r cynllun gefnogi cymunedau a hawliau pobl sy'n berchen ar asedau.



Hyblyg

Fe ddylai cymunedau allu defnyddio asedau mewn ffyrdd newydd pan mae angen.

Enghreifftiau o asedau cymunedol



Adeiladau fel llyfrgelloedd, neuaddau eglwys, tafarndai, pyllau nofio, darnau o dir, rhandiroedd.

Er enghraifft:



- Tafarn yn dod yn ganolfan gymunedol.



- Llyfrgell yn dod yn ganolfan llesiant.



- Gofod awyr agored wedi'i gadw ar gyfer garddio cymunedol.



- Theatr ar gyfer digwyddiadau celfyddydol i barhau i redeg.



Dydy pob lle ddim yn gallu dod yn ased cymunedol.



Er enghraifft, lle mae'n cael ei ddefnyddio fel cartref rhywun yn unig. Neu rhai lleoedd sy'n dod o dan gyfreithiau penodol.



Fe fyddai lle sy'n cael ei ddefnyddio fel cartref ac ar gyfer rhywbeth arall yn gallu cael ei gynnwys os ydy e'n bodloni'r rheolau.

Budd cymunedol



Er mwyn cofrestru ased rydyn ni'n credu fod angen iddo fod o fudd i'r gymuned.



Rydyn ni'n credu mai dyma'r prif beth sydd ei angen i benderfynu ydy ased yn gallu cael ei ychwanegu at y gofrestr.

Er enghraifft, fe ddylai helpu gyda phethau fel:



- Cysylltu pobl.
- Gwella iechyd a lles.
- Cefnogi'r Gymraeg.

Pwy sydd yn gallu cofrestru neu brynu asedau



Fe fyddai angen iddyn nhw fod yn grwpiau cymunedol, neu Gyngor Tref neu Gymuned.



Fe fyddai angen iddyn nhw ddangos eu bod yn gysylltiedig â'r gymuned leol.



Fe fyddai angen iddyn nhw ddweud sut fydden nhw'n gallu cefnogi eu cymuned a pham roedd hyn yn bwysig.



Fe ddylai'r grŵp gael o leiaf 10 aelod i gofrestru ased. Ddylai'r rhan fwyaf o'r aelodau ddim fod o'r un teulu.



Fe fyddai llai o reolau i grŵp gofrestru ased. Fe fyddai rheolau llymach i grŵp cymunedol brynu ased.



Er enghraifft, efallai bod grŵp newydd eisiau cofrestru ased.



Yna maen nhw'n datblygu ac yn tyfu i fod yn grŵp cryfach os ydyn nhw eisiau ei brynu.



Yna fe fyddai angen iddyn nhw ddangos:

- Maen nhw'n gallu rhedeg grŵp cymunedol yn dda.

- Mae ganddyn nhw ddigon o arian i wneud hynny.

Cymunedau lle a chymunedau o ddiddordeb



Mae cymunedau o ddiddordeb wedi ei seilio ar ddiddordeb cyffredin. Er enghraifft, ffydd, neu hanes sydd yn cael ei rannu.



Mae cymunedau lle wedi'u lleoli mewn ardal leol. Maen nhw'n canolbwyntio ar gefnogi'r gymuned leol gyfan.



Rydyn ni'n credu y dylai'r Cynllun ganolbwyntio mwy ar le na diddordeb. Rhaid i'r budd fod i'r gymuned ei hun.

Pwy fydd yn rhedeg y cynllun



Mae yna wahanol ffyrdd i redeg y cynllun.



Mae cynghorau lleol yn gallu ei redeg.



Neu mae'n gallu cael ei redeg gan dîm cenedlaethol.



Dyma rai o'r manteision a'r risgiau o'i redeg gan gynghorau lleol:

Manteision:



- Dealltwriaeth dda o ardal a chymunedau lleol.



- Fe fydd yn gweithio gyda chynlluniau lleol eraill.



- Ac fe fydd yn cefnogi cynnwys y gymuned yn well.

Risgiau:



- Rhoi mwy o bwysau ar gynghorau lleol.



- Mae penderfyniadau yn gallu cael eu gwneud yn wahanol ar draws Cymru.



- Mae'n gallu bod yn anodd pan fydd cynghorau yn asesu pethau maen nhw'n berchen arnyn nhw.



Dyma rai o'r manteision a'r risgiau o'i redeg gan dîm cenedlaethol:

Manteision:



- Fe fydd yn gweithio yr un ffordd ar draws Cymru.



- 1 Cofrestr genedlaethol.



- Gwneud penderfyniadau'n fwy annibynnol.

Risgiau:



- Fe fyddai angen i ni sefydlu 1 prif dîm cenedlaethol.



- Fe fyddai'n anoddach ateb a deall anghenion lleol.



Rydyn ni'n gallu gwneud ychydig o'r ddau. Mae hyn y cael ei alw yn **Model Hybrid**.



Fe fyddai'n well gennym ni y ffordd yma.

Y manteision fyddai:



- Gwybodaeth leol a gweithio yn yr un ffordd.



- Fe fydd help ar gael gan dîm canolog.



- Un ffordd o gasglu gwybodaeth.



- Dal i gael cyfranogiad lleol.

Risgiau:



- Fe fyddai angen i'r cyngor lleol a'r tîm cenedlaethol weithio gyda'i gilydd.



- Fe fyddai angen bod yn glir sut i redeg pethau.

Sut fyddai hyn yn gweithio




Fe fyddai cynghorau lleol yn edrych ar geisiadau.



Fe fyddai pob cyngor yn dilyn yr un canllawiau.



Fe fyddai'r holl wybodaeth yn cael ei storio mewn 1 lle.



Mae cynghorau yn gallu meddwl am grwpiau cymunedol a'r cynlluniau eraill sydd ganddyn nhw ar waith.

Sut fyddai'r cynllun yn gallu gweithio

Fe fyddai'r Cynllun yn gallu cael ei rannu yn 5 cam:



1. Mae grŵp cymunedol yn dod o hyd i ased. Maen nhw'n gwneud cais i'w ychwanegu at y gofrestr.



2. Mae'r cyngor lleol yn edrych ar y cais. Mae'r perchennog yn cael dweud beth mae'n feddwl cyn gwneud penderfyniad.



3. Os ydy'r ased yn cael ei gofrestru, fe fydd ar y gofrestr am hyd at 10 mlynedd.



4. Os ydy'r ased yn mynd ar werth, gofynnir i grwpiau cymunedol ydyn nhw eisiau ei brynu.



5. Yna mae'r grŵp yn dechrau'r broses o brynu'r ased. Mae gan y grŵp 12 mis i drefnu'r pryniant. Ar ôl 12 mis, mae'r perchennog yn gallu ceisio gwerthu'r ased i rywun arall.



Efallai y bydd grwpiau cymunedol angen cyngor, cefnogaeth a chyllid hefyd i gymryd rhan a rheoli ased yn y tymor hir.

Mwy am sut fyddai'r cynllun yn gallu gweithio



Fe fyddai'r gofrestr yn rhestr o leoedd sydd wedi'u cadarnhau fel asedau cymunedol.



Fe fyddai hefyd yn dangos pa asedau sydd heb gael eu derbyn ar y gofrestr. Fe fyddai'n rhoi'r rheswm pam.



Fe ddylai hefyd fod ffordd i grwpiau apelio. Er enghraifft, os nad ydy ased wedi cyrraedd y gofrestr.



Rydyn ni'n credu y dylai'r asedau aros ar y gofrestr am 10 mlynedd. Yna fe fyddai angen gwneud cais amdano eto.

Prynu'r Ased



Fe fyddai angen i'r perchennog ddweud a oedden nhw eisiau gwerthu eu hased.



Fe fyddai'r grŵp cymunedol wedyn yn cael y cyfle cyntaf i'w brynu.



Fe fyddai angen i'r grŵp benderfynu ydyn nhw eisiau ei brynu a dangos eu bod yn gallu gwneud hynny.



Y mathau o grwpiau cymunedol rydyn ni'n siarad amdanyn nhw fyddai sefydliadau fel:

- Cynghorau tref a chymuned.
- Elusennau.
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol.
- Rhai mathau eraill o sefydliadau.



Efallai y bydd angen iddyn nhw ddangos bod ganddyn nhw gefnogaeth y gymuned.



Fe fyddai angen iddyn nhw ddangos eu bod nhw'n gallu ei fforddio a gallu ei reoli.



Weithiau, efallai y bydd grŵp cymunedol arall hefyd eisiau prynu'r ased. Os bydd hyn yn digwydd, fe fyddai angen dewis 1 ohonyn nhw.



Fe fyddai hyn yn cael ei wneud ar sail pa mor dda maen nhw'n bodloni'r rheolau. Er enghraifft, faint o gefnogaeth sydd ganddyn nhw gan y gymuned.



Rydyn ni'n credu y dylai'r broses brynu allu para am hyd at 12 mis.



Fe fyddai hyn yn rhoi digon o amser i'r grŵp cymunedol gyflawni'r camau sydd eu hangen arnyn nhw. Ond mae angen iddo hefyd fod yn deg ar y gwerthwr.



Fe fyddai rhai camau eraill yn cael eu cymryd i wneud yn siŵr bod y broses yn deg i bawb. Er enghraifft:



- Gwneud yn siŵr bod yr ased yn cael ei werthu am bris teg.



- Gofalu am hawliau'r perchennog.



- Camau i'w cymryd os nad ydy'r perchennog yn dilyn y rheolau.



Rydyn ni hefyd yn credu bod angen digon o gyngor a chefnogaeth am y cynllun.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am beth sydd ei angen. Er enghraifft:

- Canllawiau.
- Cyngor cyfreithiol.
- Edrych faint ydy gwerth ased.
- Ariannu.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247